awen Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Cultural Trust

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent County Borough Council

CHWARTER 3

ADRODDIAD PERFFORMIAD

ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

2025-26

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi gweithgareddau a gyflawnwyd gan Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen yn ystod **Chwarter 3** 2025/26 i gefnogi Amcanion Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Mae'n cynnwys crynodeb o bob maes gwasanaeth, yn ogystal â rhai astudiaethau achos ac adborth cwsmeriaid sy'n helpu i ddangos effaith.

Crynodeb Maes Gwasanaeth:

Y MET

RAPUNZEL

ULTIMATE FLOYD

AWEN TECH

AYDMS - SIX

Chwarter tri yn y Met oedd cyfnod prysuraf y flwyddyn wrth i 83 o ddigwyddiadau gael eu cynnal, gan gynnwys rhaglen amrywiol o berfformiadau cymunedol a phroffesiynol ynghyd â'n pantomeim blynyddol.

Cafwyd y nifer fwyaf o ymwelwyr a gwerthwyd y mwyaf o docynnau yn ystod y chwarter hwn yn y flwyddyn hyd yma, ond roedd rhyw fymryn yn is na'r un cyfnod y llynedd, yn bennaf oherwydd cynulleidfaoedd llai yn y rhaglen amatur. Roedd chwarter tri yn y flwyddyn flaenorol hefyd yn cynnwys rhaglen sylweddol o Weithgarwch a Ariannwyd gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin a wnaeth chwyddo ffigurau'r llynedd braidd. Bu gostyngiad i'r cyllid hwnnw eleni sy'n esbonio'r ffigurau presenoldeb a chyfranogiad is o gymharu'r chwarter hwn gyda'r un cyfnod y llynedd.

Mae cerddoriaeth fyw yn parhau i fod yn atyniad poblogaidd yn y Met gyda'r perfformwyr teyrnged **Fleetwood Shack**, **Ultimate Floyd**, a fersiwn Nadolig o **That 80's Rock Show** a oedd yn eithriadol o boblogaidd gan werthu bron pob tocyn. Roedd pawb ar eu traed yn curo eu dwylo yn dilyn sioe **Man of the World** Peter Green a denodd gynulleidfaoedd o Flaenau Gwent ei hun ac ymhellach i ffwrdd, â phobl yn teithio o Lundain, Bryste, Caerloyw, Henffordd, Caerffili, Casnewydd a Chwmbrân.

Roedd ein rhaglen ddrama yn cynnwys Black Rat Productions â **Dai Cula** a Lighthouse Theatre yn cyflwyno **A Child's Christmas in Wales** gan Dylan Thomas; a daeth tua 50 o bobl i'n clwb comedi rheolaidd hefyd.

Roedd y rhaglen i deuluoedd yn cynnwys y bythol boblogaidd Talegate Theatre gyda **Beetlespoof**, **Hummdrumz** a'n pantomeim **Rapunzel**, a ddenodd gynulleidfaoedd o fwy na 1200 gan gynnwys cefnogaeth wych gan ysgolion lleol â dros 500 o ddisgyblion yn bresennol yn ystod cyfnod y sioe.

Cyflwynodd y cwmni amatur lleol AYDMS berfformiadau ansawdd uchel o **SIX** y daeth bron i 600 o bobl eu gwylio, ag LRS, Showstoppers, Studio 78, Ysgol Gatholig Brynmawr a Hosbis y Cymoedd hefyd yn cynnal digwyddiadau.

Daeth gwaith ymgysylltu cymunedol drwy ein sesiynau rheolaidd **Meic Agored**, **Dawnsiau Te** a'n côr **Golden Melodies** yn ogystal â'r digwyddiad Aberfest, Scare on the Square, wedi'i drefnu gan Ffrindiau Tyleri - a symudwyd i'r Met oherwydd tywydd garw. Roedd perfformiadau byw gan AYDMS, Disgo Tawel yn yr awditoriwm, adrodd straeon yn y bar, a chreu pypedau angenfilod hosan yn Oriel Seaborne wedi'i ddarparu gan Artistiaid Cyswllt Awen. Roedd y Disgo Tawel a'r pypedau yn arbennig o boblogaidd ac roedd cyfanswm o 280 o bobl yn bresennol.

"We came to the panto and my two daughter absolutely loved it!"

"A fabulous show!"

"Well done everyone, it was really good."

"Super proud of the Junior ensemble, and to have the chance to be part of a production like this was really special, thank you."

Rapunzel

MAIA, ATHRAWES, YSGOL GYNRADD WILLOWTOWN

"Rwy'n anfon e-bost i ddiolch ci chi am fore gwych yn y Met heddiw, lle ddaethom i'r pantomeim 'Rapunzel'. Roedd ein plant wrth eu boddau â'u profiad yn y theatr ac fe wnaethant fwynhau pob munud o'r sioe.

A fyddech cystal â diolch i'r tîm a'r cast a dweud 'Da lawn' enfawr wrth bawb a gymerodd ran? Roedd yn wych clywed y Gymraeg yn cael ei hymgorffori mewn cynhyrchiad llwyfan, gan roi profiad cyfoethog i'n plant o'r iaith a'r theatr.

Diolch hefyd am amynedd eich staff gyda'r plant yn ystod yr egwyl! Byddwn yn sicr yn ceisio dod â'n plant yn ôl yn fuan!

Ymddiriedolaeth
Ddiwylliannol
Cultural Trust

Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen
Swyddfeydd y Stablau, Tŷ Bryngarw,
Brynmenyn, Pen-y-Bont, CF32 8UU

Awen Cultural Trust
Stable Offices, Bryngarw House,
Brynmenyn, Bridgend, CF32 8UU

+44 (0) 1656 754825
enquiries@awen-wales.com
www.awen-wales.com

Rhif elusen gofrestredig / Registered charity number: 1166908
Rhif cofrestru TAW / VAT registration number: 224 3341 44
Rhif gofrestredig / Company number: 09610991

Mae Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen wedi'i chofrestru yng Nghymru fel cwmni cyfyngedig drwy warant.
Awen Cultural Trust is registered in Wales as a company limited by guarantee.